

ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT (CRIA) – CYFYNGIADAU LEFEL RHYBUDD 4 AR GYNULLIADAU

SWIGOD CEFNOGAETH AR GYFER AELWYDYDD Â PHLANT O DAN UN

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ystyried effaith llacio cyfyngiadau lefel 4 o ran cynulladau ar hawliau plant, sef caniatáu swigod cefnogaeth i aelwydydd sydd â phlant o dan un oed.

Dylid darllen yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant ar y cyd â'r asesiad o effaith lefelau rhybudd a chyfyngiadau COVID-19 ar hawliau plant, "Lefelau rhybudd a chyfyngiadau yng Nghymru: hawliau plant", a gyhoeddwyd gyntaf gan Lywodraeth Cymru ar 21 Rhagfyr 2020 ac a ddiweddarwyd ar 19 Chwefror 2021.¹

Y cyd-destun

Yng Nghymru, rydym yn parhau i fod ar lefel rhybudd 4. Fel yr amlinellir yng *Nghynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru*, a ddiweddarwyd ar 19 Chwefror, mae'r amrywiolynnau a'r mwntaniadau sy'n peri pryder yn golygu na allwn symud yn uniongyrchol ac yn llawn i lefel rhybudd 3 mewn un cam. Bydd angen inni weithredu'n raddol, gan asesu'r effaith wrth inni fynd ymlaen.

Y flaenoriaeth yw gweld plant, pobl ifanc a myfyrwyr yn dysgu wyneb yn wyneb eto, ond gellir cymryd camau llacio bach a gofalus i helpu o ran lles pobl hefyd.

Swigod cefnogaeth

Pan gyflwynwyd lefel rhybudd 4, ataliwyd dros dro yr hawl i ffurfio aelwydydd estynedig, ac eithrio rhieni sengl neu aelwydydd un oedolyn, sy'n dal i allu ffurfio swigen gefnogaeth gyda chartref arall.

Fodd bynnag, hyd yn oed i'r rhai nad ydynt yn rhan o swigen gefnogaeth, mae rheolau'r Coronafeirws yn caniatáu i bobl gael cymorth gan eu teuluoedd (neu ffrindiau agos) os oes ei angen arnynt ac nad oes dewis rhesymol arall.

I rieni â babanod newydd a phlant bach, mae'r rheolau'n caniatáu i drefniadau gofal plant anffurfiol gyda ffrindiau neu deulu barhau. Mae'r rheolau hefyd yn caniatáu cyfarfod gyda ffrindiau neu deulu os oes angen cefnogaeth a chymorth ychwanegol, ond dim ond os nad oes dulliau rhesymol eraill o ddarparu'r gefnogaeth a'r cymorth.

Bydd y llacio i ganiatáu swigod cefnogaeth i aelwydydd â phlentyn neu blant o dan un yn golygu:

- Bydd aelwyd sydd â phlentyn neu blant o dan un oed yn cael ffurfio swigen gefnogaeth gydag aelwyd arall. Bydd hyn yn weithredol tra bo Cymru ar lefel rhybudd 4, gan gynnwys os awn yn ôl i lefel rhybudd 4 o lefel rhybudd is yn y dyfodol
- O fewn y swigen gefnogaeth hon, caniateir cymysgu (heb ymbellhau cymdeithasol, dan do ac yn yr awyr agored)

¹ <https://llyw.cymru/lefelau-rhybudd-chyfyngiadau-yng-nghymru-hawliau-plant-html>

- Ni chaiff aelwyd sy'n ffurfio swigen gefnogaeth at y diben hwn (bod ganddi blentyn o dan un) hefyd ffurfio swigen gefnogaeth ychwanegol at ddiben arall (ee swigen gefnogaeth i gefnogi aelwyd un person neu riant sengl); y rheswm dros hyn yw lleihau'r risg o drosglwyddo rhwng nifer o aelwydydd.

Cyn ffurfio swigen gefnogaeth, dylai aelwydydd ystyried bob amser y risg bosibl o drosglwyddo o fewn y swigen, yn enwedig y risg i unrhyw berson sy'n arbennig o agored i salwch.

Mae'r llacio hwn, sy'n caniatáu swigen gefnogaeth i aelwydydd sydd â phlant o dan un oed, yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd a'r dadansoddiad o'r manteision a'r risgiau yng Nghymru.

Yr achos dros ganiatáu i aelwydydd â phlant o dan un ffurfio swigen gefnogaeth

Y cwestiwn allweddol yw p'un a oes manteision ychwanegol i rieni a gofalmwr plant o dan un oed, a fyddai'n deillio o fod yn rhan o swigen gefnogaeth ond na fyddai'n bosibl yn sgil y ddarpariaeth bresennol o ran mynediad at gymorth a chefnogaeth.

Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn darparu mynediad parhaus a diogel at aelod o'r teulu neu ffrind agos. Gallai swigen gefnogaeth gefnogi'r rhiant a'r plentyn.

I rieni, ar hyn o bryd dim ond o dan yr "esgus rhesymol" i gymysgu y gall rhiant gael gafael ar gymorth a chefnogaeth, pan nad oes dewis rhesymol arall i ddarparu'r cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar y rhiant neu'r gofalmwr. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o gyfrifoldeb ar yr unigolyn i sylweddoli bod angen cymorth a chefnogaeth arno ac i estyn allan amdano. Efallai na fydd rhiant, er enghraifft, felly, nad yw o reidrwydd yn sylweddoli bod ei ieuchyd meddwl yn dioddef, yn estyn allan am gymorth a chefnogaeth; fodd bynnag, pe bai mewn swigen gefnogaeth, gallai'r aelod agos o'r teulu neu'r ffrind yn y swigen gymryd camau i ymyrryd neu helpu cyn i ormod o amser basio.

Gallai'r mynediad parhaus at gefnogaeth drwy swigen gefnogaeth helpu rhieni plant o dan un yn y ffyrdd canlynol, felly:

- Cymorth wrth gamu i rôl rhiant
- Anghenion ieuchyd meddwl yn y cyfnod cyn ac ar ôl geni plentyn – cefnogi lles meddyliol ac emosiynol y rhieni newydd, ac o bosibl helpu i weld a yw ieuchyd meddwl y rhiant yn galw am gymorth proffesiynol ychwanegol
- Lleihau'r ymdeimlad eu bod ar eu pen eu hunain

I blant bach, yn enwedig babanod, mae nifer o effeithiau posibl os effeithir ar y ffordd y cânt eu rhianta, gan gynnwys:

- **Theori dysgu cymdeithasol**: os yw'r rhieni'n cael trafferth gyda'u hymateb i'r pandemig, gallai unigolyn arall y tu allan i'r teulu, fel taid neu nain, ddarparu ymateb gwahanol, sydd o fudd i'r plentyn – mae'r plentyn yn edrych at y rheini

sy'n gofalu amdano i wneud synnwyr o sefyllfaoedd brawychus ac i gael sicrwydd.²

- **Ymlyniad:** mae gwaith ymchwil yn awgrymu mai'r cyfnod pwysicaf wrth ddatblygu ymlyniad cryf yw'r cyfnod cyn geni plentyn a 18 mis cyntaf ei fywyd. Os yw rhieni'n cael trafferthion yn sgil tlodi neu iechyd meddwl, er enghraifft, yn ystod y cyfnod hwn, gallai effeithio ar eu rhianta, a datblygiad ymlyniad cryf, gan effeithio o bosibl ar iechyd meddwl, sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, a datblygiad iaith cynnar y plentyn.³ Ar hyn o bryd, nid yw rhieni newydd yn gallu cael gfael ar y ffynonellau cymorth arferol, megis grwpiau babanod a phlant bach i gael cymorth gan eraill sydd yn yr un sefyllfa â nhw, a gallai hyn effeithio ar eu gallu i fondio'n dda gyda'u plentyn. Gallai swigen gydag oedolyn cefnogol arall helpu gyda hyn.
- **Datblygiad iaith:** mae'r profiadau y mae plant yn eu cael gartref yn chwarae rhan hollbwysig o ran iaith a dysgu cynnar. Mae gwaith ymchwil yn amlygu tair agwedd ar rianta sydd â rôl ganolog o ran iaith a dysgu cynnar ymhlith plant: (1) i ba raddau y mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu rheolaidd (ee darllen llyfrau gydag eraill, adrodd straeon); (2) ansawdd y rhyngweithio rhwng y sawl sy'n gofalu am y plentyn a'r plentyn (ee ysgogiad gwybyddol rhieni a sensitifrwydd/lefel yr ymateb); a (3) darparu deunyddiau dysgu sy'n briodol i'w hoedran (ee llyfrau a theganau).⁴ Ni fyddai'r math hwn o weithgaredd o reidrwydd yn cael ei ganiatáu ar hyn o bryd o dan y darpariaethau ar gyfer mynediad at gymorth a chefnogaeth, ond gallai oedolyn cefnogol ei gyflawni mewn swigen gefnogaeth.
- **Datblygiad ymennydd babi:** mae niwrowyddoniaeth wedi dangos bod y math o ofal ac ysgogiad y mae babi'n ei gael yn effeithio'n gryf ar gylchedau neu 'wifrau' yr ymennydd, ac ar ansawdd yr ymlyniad y mae babi yn ei ddatblygu gyda'r sawl sy'n gofalu amdano.⁵ Byddai gofalwr ychwanegol o fewn swigen gefnogaeth o bosibl yn cyfrannu at yr ysgogiad hwn i'r ymennydd, a gallai fod yn hanfodol os yw'r rhiant yn cael trafferthion iechyd meddwl neu'n dioddef oherwydd materion difrifol fel tlodi.
- Mae'r **model ecoleg ddynol** (Bronfenbrenner, 1979) yn awgrymu bod datblygiad plentyn yn cael ei lywio ar sail y rhyngweithio rhyngddo ac elfennau eraill o fewn ei amgylcheddau, y teulu, yr ysgol, y gymuned a'r diwylliant. Mae pob un o'r amgylcheddau hyn yn cynnwys ffactorau sy'n ei amddiffyn ac sy'n risg iddo, a all naill ai wella canlyniadau bywyd plentyn neu ei roi mewn perygl. Mae'n tybio na ellir deall y berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant yn llawn heb ddeall sut mae'r amodau sy'n gysylltiedig â'r teulu yn effeithio ar y rhyngweithio hwnnw (Asmussen & Weizel, 2010; Osher et al 2020). Mae p'un a all rhieni berfformio'n effeithiol yn eu rolau magu plant o fewn y teulu yn dibynnu ar ofynion y rôl, straeon a chymorth sy'n deillio o gyfeiriadau eraill (Bronfenbrenner, 1979, tudalen 7). Mae'r llenyddiaeth am blant yr effeithiwyd arnynt gan drychinebau naturiol a rhyfel yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried

² Betancourt & Khan, 2008

³ Allen 2011; Moullin et al 2014

⁴ Tamis-LeMonda, & Rodriguez, 2009

⁵ Canolfan Datblygiad Plentyn, Prifysgol Harvard

gwydnwch plant o fewn y persbectif datblygiadol ecolegol hwn (Betancourt & Khan, 2008; Masten & Osofsky, 2010; Masten & Narayan, 2012). Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd yr amgylchedd ehangach; byddai swigen gefnogaeth gydag aelod o'r teulu neu ffrind agos yn ychwanegu rhyw elfen o gymuned at brofiad y plentyn.

Yr effeithiau ar hawliau plant

Gallai pob plentyn fod yn agored i niwed o ganlyniad i'r cyfyngiadau yn sgil y pandemig. Mae'r asesiad cyffredinol o effaith y lefelau rhybudd a'r cyfyngiadau yng Nghymru ar hawliau plant wedi'i gyhoeddi⁶, ac mae'n nodi egwyddorion cyffredinol i helpu i lywio'r penderfyniadau ar sut i weithredu drwy gydol y pandemig, gan gwmpasu pob lefel rhybudd. Ymhlith yr egwyddorion cyffredinol, nodir y dylai fod cefnogaeth ar gael i rieni drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys i famau/rhieni newydd.

Ar hyn o bryd, a ninnau'n dal i fod ar lefel rhybudd 4, y flaenoriaeth yw gweld plant a phobl ifanc yn dysgu wyneb yn wyneb eto, ond gellir cymryd camau llacio bach a gofalus ochr yn ochr â'r flaenoriaeth honno, lle mae angen clir a bod cydbwysedd y risgiau yn dderbyniol.

Roedd y penderfyniad i lacio'r cyfyngiadau ychydig er mwyn caniatáu swigod cefnogaeth i aelwydydd sydd â phlant o dan un oed yn seiliedig ar ystyriaeth ofalus o'r dystiolaeth am effeithiau posibl cyfyngiadau lefel rhybudd 4 ar y grŵp hwn o rieni a phlant, fel y nodir uchod.

Ystyriwyd yr effeithiau ar hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel a ganlyn:

Erthygl 6 CCUHP: Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach; ac

Erthygl 24 CCUHP: Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl.

Mae'r hawl i fyw yn fwy na chadw'n ddiogel rhag y feirws. Mae'n ymwneud â datblygu'n gymdeithasol, yn emosiynol, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn ysbrydol.

Dylai plant iau allu cymdeithasu – mae hyn yn bwysig i fabanod a phlant bach, yn ogystal â phlant oedran ysgol gynradd.

Ar lefel 4, cyfyngir ar allu plant i gymdeithasu ag eraill, nid yn unig oherwydd diffyg aelwyd estynedig, ond hefyd oherwydd bod cyfarfod ag aelwydydd eraill (ac eithrio cyfarfod ar gyfer ymarfer corff yn yr awyr agored, sydd bellach yn cael ei ganiatáu ar gyfer hyd at bedwar oedolyn o ddim mwy na dwy aelwyd, ynghyd ag unrhyw blant o dan un ar ddeg oed o'r naill aelwyd neu'r llall ac unrhyw un sy'n gofalu am berson yn y grŵp⁷) wedi'i wahardd ynghyd â phob gweithgaredd i blant a oruchwylir.

⁶ <https://llyw.cymru/lefelau-rhybudd-chyfyngiadau-yng-nghymru-hawliau-plant-html#section-58633>

⁷ Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, paragraffau 1(4)(f) a 2(4)(i) o Atodlen 4, fel y'u haddaswyd dros dro gan baragraff 2 o Atodlen 5 (o 20 Chwefror 2021 i 12 Mawrth 2021).

Heb aelwyd estynedig neu swigen gefnogaeth, gallai gallu plentyn ifanc i ffurfio perthynas â theulu estynedig neu ffrindiau agos ddioddef. Mae hefyd yn effeithio ar sut mae plentyn yn deall y byd a normau cymdeithasol a diwylliannol.

Fel yr amlinellir uchod, gallai manteision swigen gefnogaeth leihau'r risg i ddatblygiad cymdeithasol, meddylol, corfforol ac emosiynol plentyn drwy gefnogi iechyd meddwl y fam/rhiant a'i allu i fondio a ffurfio ymlyniad cryf gyda'u babi; darparu ffynhonnell ychwanegol o sicrwydd yn y sefyllfa anodd a grëwyd gan y pandemig; a chefnogi datblygiad iaith gynnar ac ymennydd y babi.

Erthygl 18 CCUHP: Rhaid i lywodraethau helpu rhieni trwy greu gwasanaethau cymorth i blant a rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni i fagu eu plant.

Mae gwasanaethau cymorth cynnar, drwy Teuluoedd yn Gyntaf, yn gweld rhestrau aros yn datblygu wrth i fwy o deuluoedd gysylltu â nhw am gymorth a chefnogaeth. Mae cymorth ar-lein ar gael, gan gynnwys drwy Magu Plant. Rhowch amser iddo⁸, ond nid oes gan bob rhiant fynediad at lwyfannau digidol, ac efallai y bydd yna fecanweithiau cymorth lleol ar waith hefyd. Fodd bynnag, er bod y gwasanaethau a ddarperir wyneb yn wyneb yn gyfyngedig ar lefel rhybudd 4, gallai swigen gefnogaeth ddarparu'r cyswllt dynol sydd ei angen ar riant newydd i'w helpu i gamu i rôl rhiant mewn amgylchiadau sy'n cyfyngu ar fynediad rhieni i grwpiau cymorth o bobl eraill sydd yn yr un sefyllfa â nhw.

Erthygl 19 CCUHP: Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.

Byddai aelwyd estynedig neu swigen gefnogaeth, er nad yw'n gefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan y llywodraeth, yn galluogi teulu i gael cefnogaeth gan eu teulu neu eu ffrindiau agosaf. Gallai helpu lles meddylol ac emosiynol rhieni, a'u helpu i ddelio â heriau fel diffyg cwsg, yn enwedig os oes plant hŷn ar yr aelwyd hefyd. Gallai oedolyn cefnogol yn y swigen gefnogaeth helpu i leddfu tensiynau a helpu'r rhiant i ymateb mewn ffyrdd cadarnhaol, yn hytrach na themlo ar ben ei dennyn ac o bosibl ymateb mewn ffordd na fyddai'n gwneud fel arfer.

Crynodeb

Gwyddom fod aelwydydd estynedig yn cael eu caniatáu ar bob lefel rhybudd arall, ochr yn ochr â gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer plant. Byddai hyn yn cynnwys cymorth i rieni gan eraill sydd yn yr un sefyllfa â nhw, a chyfleoedd datblygu i blant, drwy grwpiau babanod a phlant bach.

Mae'r amser a dreuliwn ar lefel rhybudd 4 yn ystyriaeth allweddol, felly. O ran hawliau plant, ac effaith y cyfyngiadau presennol ar eu datblygiad cymdeithasol,

⁸ <https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo>

emosiynol, meddyliol a chorfforol, mae'r effaith andwyol bosibl yn debygol o fod yn fwy po hiraf y bydd y cyfyngiadau'n parhau.

O ran rhieni newydd neu'r rheini sy'n gofalu am fabanod, mae rhesymau clir dros hyrwyddo cymorth ychwanegol drwy swigen gefnogaeth, yn enwedig oherwydd anghenion datblygiadol y baban, yr angen i ffurfio perthynas â'r teulu ehangach, ac i ffurfio ymlyniad cryf gyda'i riant/gofalwr.

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw gweld plant a phobl ifanc yn dysgu wyneb yn wyneb eto, ynghyd â chymryd camau bach tuag at lefel rhybudd 3, gan ganolbwyntio ar les pobl.

Gallai caniatáu swigen gefnogaeth i rieni babanod newydd ddod â manteision sylweddol i aelwydydd â phlant o dan un oed, gan gefnogi lles y rhiant, a lles a datblygiad y baban. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi hawliau'r plentyn o dan erthyglau 6, 18, 19 a 24 yn benodol.

Ar y cyfan, mae'r manteision posibl yn fwy na'r risgiau trosglwyddo. Mae hwn yn gam bach a gofalus i gefnogi ein plant ieuengaf a'u teuluoedd, ochr yn ochr â'r ffocws presennol ar agor addysg i'n plant a'n pobl ifanc.